# Ymgynghoriad – trefniadau arolygu Estyn ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion o fis Medi 2024

**Cyflwyniad**

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu sut rydym yn arolygu ar draws yr holl sectorau i wneud yn siŵr fod ein gwaith yn cyd-fynd â newidiadau yng Nghymru a'n bod yn parhau i roi blaenoriaeth i les pennaf dysgwyr.

O fis Medi 2024, byddwn yn cyflwyno trefniadau arolygu newydd ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Mae nawr yn adeg bwysig i ni fyfyrio ac adolygu er mwyn i ni allu sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf lle mae ei angen fwyaf. Gellir cael mwy o wybodaeth yma: https://www.estyn.gov.wales/inspection/inspecting-future-2024-2030

Rydym yn awyddus i adolygu, datblygu a myfyrio ar ein trefniadau newydd mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid. Rydym yn gwerthfawrogi barn pawb sy'n ymwneud â'r byd addysg a'r gymuned ehangach. Rydym yn credu'n gryf mewn gwneud arolygiad yn brofiad cadarnhaol, sicrhau'r gorau i ddysgwyr, cynnig deialog broffesiynol ac adeiladol i arweinwyr a staff, a rhannu ein profiadau eang ledled Cymru i feithrin gallu a chefnogi gwelliant.

**Ar gyfer pwy mae'r ymgynghoriad hwn?**

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer pawb fydd â diddordeb yn y trefniadau arolygu newydd ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, gan gynnwys:

- Athrawon, llywodraethwyr ac arweinwyr o ysgolion (cynradd, uwchradd, pob oed, annibynnol, arbennig)
- Staff o unedau cyfeirio disgyblion
- Gweithwyr addysg proffesiynol ac arweinwyr ar draws y sector, gan gynnwys staff o wasanaethau gwella ysgolion
- Rhieni a gofalwyr
- Rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol

Bydd hyn yn llywio sut orau y gallwn ni ffurfio proses / fframwaith arolygu newydd ac effeithiol, o 2024 ymlaen.

Rydym eisiau clywed syniadau pawb am ein cynigion cynnar ar gyfer ysgolion ac UCDau. Byddwn yn ymgynghori ar wahân â gwasanaethau addysg llywodraeth leol a sectorau addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ystod Yr Hydref, 2023.

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar gyfer yr holl ysgolion ac UCDau yn cau ar **26 Mehefin 2023.**

**Diogelu Data a Chyfrinachedd**

Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei dal gan Estyn. Os byddwch yn datgelu pwy ydych chi, bydd hyn yn cael ei drin yn gyfrinachol, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

Bydd Estyn yn defnyddio cwmni annibynnol i gynorthwyo â dadansoddi data yn gyffredinol. Ni fydd hyn yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth bersonol am unigolion. Bydd yr adroddiad dadansoddi yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol yn unig, ac ni fydd yn enwi nac yn nodi unrhyw unigolion. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i helpu gwella sut rydym yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Dyma ddolen at ein https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-02/Privacy Notice.pdf

## 2. Gwybodaeth allweddol amdanoch chi

**1. Dewiswch un opsiwn isod sy’n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych yn llenwi’r holiadur hwn.**

- ☐ Pennaeth / athro sydd â gofal / prifathro
- ☐ Uwch arweinydd
- ☐ Athro
- ☐ Staff cymorth
- ☐ Llywodraethwr ysgol
- ☐ Disgybl ysgol
- ☐ Rhiant neu ofalwr
- ☐ Arall (nodwch):

**2. Pa sector ydych chi’n ei gynrychioli? Dewiswch bob opsiwn perthnasol.**

- ☐ Ysgol gynradd
- ☐ Ysgol uwchradd
- ☐ Ysgol bob oed
- ☐ Ysgol annibynnol
- ☐ Ysgol arbennig
- ☐ Uned cyfeirio disgyblion
- ☐ Awdurdod lleol
- ☐ Consortiwm rhanbarthol / gwasanaeth gwella ysgolion
- ☐ Sector gwirfoddol
- ☐ Arall (nodwch):

# 3. Rhan 1: Trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

**3. Rydym yn cynnig ein bod yn newid nifer y meysydd yr ydym yn eu hystyried yn ystod arolygiad o bump i dri. Bydd hyn yn ein helpu i greu cysylltiadau gwell rhwng ansawdd y gwaith a'r effaith ar gyfer disgyblion. Hefyd, mae'n ein helpu i osgoi dyblygu yn ein harweiniad a'n hadroddiadau lle rydym yn gwerthuso darpariaeth a'i heffaith ar ddisgyblion.**

| Dyma'r meysydd arolygu rydym y neu defnyddio *ar hyn o bryd:* | Dyma'r tri maes arolgyu *arfaethedig:* |
|---|---|
| MA1 Dysgu<br>MA2 Lles ac agweddau at ddysgu<br>MA3 Addysgu a phrofiadau dysgu<br>MA4 Gofal, cymorth ac arweiniad<br>MA5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | MA1 Addysgu a dysgu<br>MA2 Gofal, cymorth a lles<br>MA3 Arwain a gwella |

**Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'n ofynnol i ni lunio adroddiad i Lywodraeth Cymru ar y graddau y mae'r ysgol yn bodloni'r safon. Felly, ar gyfer ysgolion annibynnol, byddwn yn gwerthuso perfformiad yr ysgol gan ddefnyddio'r un tri maes ag ysgolion a gynhelir, ond hefyd yn canolbwyntio ar y Safonau Ysgolion Annibynnol.**

**Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr / dim barn

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn i ni a nodwch y rheswm / rhesymau pam y dewisoch chi'r opsiwn uchod:

**4. Rydym yn cynnig ein bod yn cynnal y cyfnod rhybudd deg diwrnod a gaiff ysgolion ac UCDau cyn arolygiad. Mae hyn yn rhoi digon o amser i ni ar gyfer holiaduron ac i'r ysgolion a'r UCDau lanlwytho dogfennau perthnasol, ac ati...**
**Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ansicr / dim barn

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn i ni a nodwch y rheswm / rhesymau pam y dewisoch chi'r opsiwn uchod:

**5. Rydym yn cynnig ein bod yn ymgysylltu'n amlach ag ysgolion ac UCDau ynghylch gweithgarwch arolygu.**

**Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ansicr / dim barn

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn i ni a nodwch y rheswm / rhesymau pam y dewisoch chi'r opsiwn uchod:

**6. Rydym yn cynnig ymweld â phob ysgol annibynnol o leiaf ddwywaith yn ystod cylch arolygu.**

**Byddai un o'r ymweliadau hyn yn arolygiad craidd, a'r llall yn ymweliad yn canolbwyntio ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru).**

**Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**

- ☐ Strongly agree
- ☐ Agree
- ☐ Disagree
- ☐ Strongly disagree
- ☐ Unsure / no opinion

Please use the box below to give us your opinions and state the reason(s) why you chose the option above:

**7. Sut dylem ni gynnwys rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc yn y trefniadau arolygu newydd, o 2024 ymlaen? Defnyddiwch y blwch isod i rannu'ch barn.**

**8. Fel rhan o'r broses arolygu newydd o 2024 ymlaen, pa wybodaeth fyddai'n fuddiol ei chynnwys mewn adroddiad arolygu?**

**9. Pa ddulliau eraill ddylem ni eu defnyddio i adrodd yn ôl am negeseuon o adroddiad arolygiad, i wahanol gynulleidfaoedd?**

**10. Rydym ni eisiau dod o hyd i ffyrdd newydd o rannu arfer effeithiol a welwyd yn ystod arolygiadau, sy’n annog dysgu oddi wrth ein gilydd. Beth yw eich syniadau ar sut y dylem ni wneud hyn?**

# 4. Rhan 2: Sylwadau cyffredinol

Rydym wedi ymrwymo i wella'r ffordd rydym yn gweithio ac mae gennym ddiddordeb yn eich barn a sut gallwn ni wneud ein gwaith yn fwy effeithiol.

**11. Defnyddiwch y blwch isod i roi adborth ar unrhyw agweddau eraill ar drefniadau arolygu Estyn.**

**12. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**

Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau?**
**Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

**13. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl.**
**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi?**
**Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

## 5. Gwybodaeth ychwanegol

**14. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, defnyddiwch y blwch isod i nodi enw'r sefydliad.**

**15. Os ydych chi'n hapus i Estyn gysylltu â chi eto ynglŷn â'ch sylwadau, rhowch eich manylion cyswllt isod.**

# 6. Diolch!

Diolch am gymryd rhan yn ein hymgynghoriad. Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth rydym yn ei derbyn i ddatblygu ein gwaith arolygu. Cyn bo hir, byddwn yn dechrau profi ymagweddau ychydig yn wahanol at arolygu gydag ychydig o ddarparwyr ar draws pob sector. Bydd adborth o’r treialon hyn yn llywio’r cam datblygu nesaf. Rydym yn adolygu beth rydym yn ei arolygu, a sut, i wneud yn siŵr fod ein gwaith yn cyd-fynd â newidiadau yng Nghymru, ac yn diwallu anghenion y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr. Bydd y trefniadau arolygu newydd yn dechrau ym mis Medi 2024. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost atom: ymgynghori@estyn.llyw.cymru